



**Garn Boduan**  
27 Km - 17 milltir

**Garn Boduan**  
27 Km - 17 miles

**Taith Garn Boduan**

- Mae'r daith yn cychwyn o gylchfan y Groes yn Nefyn. Cymeryd y ffordd i'r de ddwyrain tuag at Mynydd Nefyn, gwyro i'r chwith ac ymlaen tuag at y mynydd, gan ddringo'r allt serth.
- Teithio ymlaen heibio Llwyn ac yn fuan wedi mynd heibio Castell Bach troi i'r dde. Troi i'r dde ar gyffordd y B4354 a thro'i'n syth i'r chwith. Troi i'r chwith ar y gyffordd nesa a dilyn y ffordd ymlaen cyn troi i'r dde ger Mela.
- Gwyo i'r dde ar y gyffordd nesa tuag at Llannor, troi i'r chwith ger yr eglwys yn Llannor ac ymlaen tuag at Gorffwysfa. Troi i'r dde tuag at Efailnewydd ac wedi cyrraedd y pentref croesi'n syth ar draws yr A497 a theithio tuag at Rhydyclafdy.
- Teithio ymlaen drwy'r pentref ac ymhen tua milltir troi i'r dde tuag at Dinas. Wrth gyrraedd Dinas troi i'r dde ger y capel, teithio ymlaen a thro'i i'r dde ar y groesffordd nesa tuag at Nefyn. Teithio ar y ffordd yma nes cyrraedd cylchfan Bryncynan, croesi syth ar draws ac ymlaen i Nefyn a'r man cychwyn.

**Garn Boduan Ride**

- The excursion starts at "Y Groes" roundabout located in the centre of Nefyn. At the roundabout proceed out of the village along the south-easterly road towards Mynydd Nefyn. The route veers to the left towards the mountain with its steep ascent.
- Cycle on passing Llwyn and soon after Castell Bach to bear right. At the junction with the B4354 turn right taking a sudden left turn. Bear left at the next road junction and follow road onwards before turning right before Mela.
- Veer right at the next road junction and continue towards Llannor. In the village go left near the church and straight on towards Gorffwysfa. From here proceed right towards Efailnewydd. Upon reaching the village cycle across the A497 and proceed towards Rhydyclafdy.
- Cycle through Rhydyclafdy and within a mile turn right for Dinas. At Dinas go right near the chapel and travel onwards turning right at the next crossroads in the direction of Nefyn. Continue along this road reaching the Bryncynan roundabout. Go straight across and onwards returning to Nefyn.

**Pen Llŷn**  
**Llŷn Peninsula**

**PWLLHELI**

# Garn Boduan

**Cychwyn a Gorffen:** ..... Y Groes, Nefyn  
**Parcio:** ..... Stryd y Plas, Nefyn  
**Hyd y Daith:** ..... 27Km -17 milltir  
**Amser:** ..... 2 - 3 awr

**Trafnidiaeth Gyhoeddus Agosaf:** Rheilffordd: Pwllheli

O Ddrws i Ddrws - +44 1758 721777

**Gwasanaethau agosaf ar gyfer beicwyr:**

Beics Berno

Partiau a thrwsio - Llŷn Cycle Centre, Yr Ala, Pwllheli. Ffôn: 01758 612414.



Mae Nefyn yn dref arbennig a dderbyniodd ei siarter gan y Tywysog Du ym 1355. Mae iddi hanes llawn rhamant. Bu yn enwog am ei phenwaig a gwelir y tri phennog ar arfbais y dref. Ceir Amgueddfa Forwrol yn yr hen eglwys. Wrth ddringo'r allt i fyny at Fynydd Nefyn edrychwch yn

ôl ar yr olygfa ysblennydd o Faeau Nefyn a Phorthdinllaen. Bu'r ddau fae yn enwog am adeiladu llongau ac yn borthladdoedd llongau hwyliau prysur. Tri chopar Eifl sydd i'w gweld ar y chwith. Bydd Garn Boduan yn eich dilyn ar yr ochr dde ond bydd yr olygfa o Eryri a gwlad Llŷn yn newid gydol yr amser.

Dilynwch lonydd culion tawel Llŷn ac yn y man dewch i Lannor. Yno mae Eglwys y Grog Sanctaidd gyda'i charreg fedd o'r 6ed canrif. Yma yr erlidiwyd Howell Harris, y Diwygiwr ym 1741 wrth iddo bregethu yn y fynwent.

Wedi dringo'n raddol o Rydyclafdy bydd y daith yn parhau yn gymharol wastad ond yn fwy coediog. Yng nghanol tawelwch Llŷn cewch gyfle i ymweld ag Eglwys Llandudwen.

Yn fuan daw arfordir gogleddol Llŷn ac Ynys Môn i'r golwg, cewch gip ar Drwyn Porthdinllaen, a bydd Nefyn yn eich gwahodd yn ôl i fwynhau'r hen dref. .



**Garn Boduan**

